



CYNGOR SIR POWYS

Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Powys 2011-2026

**PROTOCOL AR GYFER PARATOI A MABWYSIADU CANLLAWIAU
CYNLLUNIO ATODOL**

Mehfin 2018

**Mae'r ddogfen hefyd ar gael yn Saesneg
This document is also available in English**

CYNNWYS

Rhif Tudalen

1. Cyflwyniad	2
2. Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) a CDLI Powys	2
3. Diben y Protocol	2
4. Nodau'r Protocol	3
5. Statws CCA wrth Wneud Penderfyniadau	3
6. Rhaglen CCA y CDLI	3
7. CCA: Cynnwys ac Ymgynghori	4
8. CCA eraill	5
9. Aseidiadau	6
10. Ystyriaethau o ran y Gymraeg	6
11. Monitro ac Adolygu CCA	6
12. Camau Paratoi CCA	7

ATODIADAU

1. Cynllun Cynnwys Rhanddeiliaid a Chymunedau'r CCA	10
2. Geirfa	13

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r ddogfen hon (y Protocol) wedi'i pharatoi gan Gyngor Sir Powys i egluro sut a phryd y bydd Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn cael eu paratoi i gefnogi rhai polisiau yng Nghynllun Datblygu Lleol (CDLI) 2011-2026 mabwysiedig (cymeradwy) Powys.

1.2 Mae'r Protocol yn egluro sut yr ymgwymerir â dulliau paratoi'r CCA, i sicrhau eu bod yn glir, cynhwysol ac yn dryloyw, blaenoriaethau sy'n ganolog i genhadaeth gorfforaethol Cyngor Sir Powys i fod yn gyngor agored, rhagweithiol ac ymgysylltiol (CS Powys, 2018¹).

2. Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) a CDLI Powys

2.1 Mae Cynllun Datblygu Lleol Powys 2011-2026 (CDLI) yn cynnwys polisiau cynllunio'r Cyngor i'w defnyddio wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau sy'n ymwneud â datblygu a defnyddio tir yn ardal Awdurdod Datblygu Lleol Powys. Mae'r CDLI yn ymdrin â Phowys gyfan ar wahân i'r ardal ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a hwn yw'r cynllun datblygu sydd wedi'i fabwysiadu tan 2026.

2.2 Er bod y CDLI yn cynnwys polisiau a chynigion sy'n ffurfio'r sail ar gyfer gwneud penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau cynllunio, mae'n osgoi gormod o fanylion. Felly, mae'r CDLI yn cael ei ategu gan set o ddogfennau arweiniol o'r enw Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) i gynorthwyo wrth ddeall, dehongli a chymhwyso rhai polisiau'r CDLI wrth wneud penderfyniadau cynllunio.

2.3 Rhaid cysylltu'r CCA yn glir â pholisiau yn y CDLI a bod yn gyson â'r CDLI a pholisi cynllunio cenedlaethol. Dim ond canllawiau a chyngor y mae'r CCA yn eu cynnwys ac ni ddylent, er enghraifft, nodi polisiau newydd neu feini prawf ar gyfer gwneud penderfyniadau sy'n ychwanegol at y rhai sydd yn y CDLI ei hun.

2.4 Mae'r rhaglen CCA arfaethedig i ategu CDLI Powys yn dechrau wrth fabwysiadu'r Cynllun a cheir y manylion yn Adran 6.

2.5 Tra bydd CCA y CDLI yn cael eu paratoi, gall y Cyngor ddal i ystyried CCA perthnasol y Cynllun Datblygu Unedol (CDU) hyd at yr adeg honno pryd y bydd y canllawiau hynny'n cael eu tynnu neu eu disodli. Mae'r rhan fwyaf o CCA CDU neu Ganllawiau Rheoli Datblygu Dros Dro Powys bellach wedi'u disodli ond mae'r Cyngor yn cario yn eu blaenau ddau o'r CCA presennol fel ystyriaethau cynllunio perthnasol i'r CDLI nes i'r rhain gael eu disodli gan ganllawiau newydd. Y rhain yw 1. CCA Tai Fforddiadwy ar gyfer Anghenion Lleol, 2010 (a ddiweddarwyd yn 2011) a 2. Canllaw Dylunio Preswyl, 2004.

3. Diben y Protocol

3.1 Rhaid i'r Cyngor baratoi CCA mewn ffordd drefnus ac amserol i sicrhau bod y CDLI mor effeithiol â phosibl wrth reoli datblygu tir i hwyluso datblygu cynaliadwy.

3.2 Mae'r Protocol yn darparu dull methodolegol a chyson o baratoi a chyhoeddi'r holl raglen CCA o fewn amserlenni penodedig, gan fynd â dogfennau drwy'r camau o ddrafftio, ymgynghori, adolygu a chymeradwyo, sef y gweithdrefnau a gymeradwyir gan ganllawiau CDLI Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2015², para 7.3.7). Mae cymryd y camau hyn yn sicrhau bod y CCA cymeradwy'n dal y pwysau anghenrheidiol fel ystyriaeth berthnasol yn ystod y broses gwneud penderfyniadau.

3.3 Mae'r siart lif yn Adran 12 yn dangos chwe cham paratoi CCA.

¹ Gweledigaeth Cyngor Sir Powys 2025

² Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) Ail Argraffiad

4. Nodau'r Protocol

4.1 Diben y Protocol hwn yw pennu'r amserlen a'r broses ar gyfer paratoi'r CCA a'r cyfleoedd i randdeiliaid, y cyhoedd ac asiantaethau gyfrannu.

4.2 Dogfen bwysig ym mhroses paratoi'r CCA yw'r Protocol. Noda ddull cymeradwy'r Cyngor o sicrhau bod Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu paratoi mewn ffordd gyson gydag ymgysylltu ac ymgynghori. Mae'n rhwymo'r Cyngor Sir fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol i Bowys (ac eithrio Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) i lunio CCA gan gydymffurfio â'r amserlenni a phrosesau ymgynghori a nodwyd.

4.3 Mae'r Protocol:

- i. yn cadarnhau pa CCA a baratoir a phryd;
- ii. yn esbonio'r camau wrth baratoi CCA a'r broses a'r gweithdrefnau a ddilyniir gan y Cyngor;
- iii. yn rhoi gwybod i bobl pryd maent yn cael cymryd rhan;
- iv. yn nodi Cynllun Cynnwys Rhanddeiliaid a Chymunedau'r CCA;
- v. yn egluro sut bydd y Cyngor yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r CCA unwaith maent wedi'u cymeradwyo a dod i rym.

5. Statws CCA wrth Wneud Penderfyniadau

5.1 Nid oes gan CCA yr un statws neu bwysau ag a briodolir i bolisiâu cynlluniau datblygu mabwysiedig yn Adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 sy'n nodi:

Rhaid i geisiadau cynllunio gael eu penderfynu yn unol â'r cynllun mabwysiedig oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu fel arall.

5.2 Mae CCA yn ategu'r polisiâu yn y cynllun ond nid ydynt yn cael eu hystyried fel rhan o'r cynllun mabwysiedig. Felly, fe edrychir arnynt fel ystyriaeth berthnasol wrth wneud penderfyniadau (Llywodraeth Cymru 2016³, para 2.3.4). Mater yw ystyriaeth berthnasol y dylid ei ystyried wrth benderfynu ynglŷn â chais cynllunio neu mewn apêl yn erbyn penderfyniad cynllunio. Dyfarniad gan yr un sy'n gwneud y penderfyniad yw'r pwysau a roddir i ystyriaethau perthnasol wrth gyrraedd penderfyniad.

5.3 I CCA gario pwysau sylweddol wrth wneud penderfyniadau, gan gynnwys mewn achosion lle mae'r Arolygiaeth Gynllunio'n penderfynu ynglŷn ag apêl gynllunio, rhaid i'r CCA ddeillio o'r cynllun datblygu a bod yn gyson â'r cynllun hwnnw a rhaid iddynt fod yn destun ymgynghori (Llywodraeth Cymru, 2016⁴, para 2.3.4) a'u bod wedi'u mabwysiadu'n ffurfiol (wedi'u cymeradwyo) gan y Cyngor.

6. Rhaglen CCA y CDLI

6.1 Mae Atodiad 2 y CDLI yn cynnwys rhaglen y cytunir arni ar gyfer llunio CCA sy'n manylu ar ba bolisiâu fydd yn cael eu hategu gan CCA a'r amserlenni ar gyfer cwblhau'r canllawiau. Dangosir y rhaglen yn Nhabl 1.

6.2 Mae blaenoriaeth wedi'i rhoi i baratoi dogfennau CCA yn ôl y testun a'r amser ac adnoddau sydd ar gael. Mae'n ofynnol i'r Cyngor fonitro ei berfformiad o ran paratoi a mabwysiadu CCA yn erbyn y rhaglen y cytunir arni.

³ Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Argraffiad 9

⁴ Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Argraffiad 9

6.3 Oherwydd yr amserlen baratoi benodedig a ddangosir yn Nhabl 1, mae'n rhesymegol i'r Cyngor baratoi gwahanol CCA ar yr un pryd. Bydd hyn yn galluogi'r defnydd mwyaf effeithlon o adnoddau gan helpu i symleiddio'r broses.

Tabl 1: Rhaglen CCA Cynllun Datblygu Lleol Powys

Maes Testun y CCA	Cysylltiad â Pholisi CDLI Powys (yn ôl Cyfeirnod y Polisi)	Amserlen Darged yn dilyn Mabwysiadu'r CDLI	Dyddiad Targed ar gyfer Mabwysiadu'r CCA
Tai Fforddiadwy	H5, H6, SP3	O fewn 6 mis	Hydref 2018
Bioamrywiaeth	DM2, SP7		
Rhwymedigaethau Cynllunio	DM1		
Tirwedd	DM4, SP7	O fewn 12 mis	Ebrill 2019
Ynni Adnewyddadwy	RE1, DM13		
Ardaloedd Cadwraeth	DM13, SP7	O fewn 18 mis	Hydref 2019
Gofod Agored	DM3		
Canllaw Dylunio Preswyl	DM13		
Archaeoleg	SP7	O fewn 24 mis	Ebrill 2020
Yr Amgylchedd Hanesyddol gan gynnwys Cofnodion yr Amgylchedd Hanesyddol	DM13, SP7		
Draenio Tir	DM6		

7. CCA: Cynnwys ac Ymgynghori

7.1 Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i gynnwys rhanddeiliaid ac ymgynghori â'r cyhoedd gan gydnabod y buddion sy'n codi pan fydd polisi lleol yn cael ei lunio ar sail cyfraniad rhanddeiliaid lleol. Mae cynnwys rhanddeiliaid fel hyn ac ymgynghori ehangach yn sicrhau bod y Cyngor yn hollol ymwybodol o'r materion lleol ac yn gallu derbyn cyngor, help a syniadau newydd a dylai hyn arwain at greu gwell canllawiau. Dylai hefyd helpu i atal problemau a gwrthwynebiadau yn nes ymlaen.

7.2 Mae cynnwys rhanddeiliaid yn ganolog i'r Protocol gan gynnig y cyfle i eraill ddeall, dylanwadu ar a siapia cynnwys y CCA. Mae "cynllun cynnwys cymunedau" strwythuredig yn elfen hanfodol o greu CCA cadarn ac mae canllawiau Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2015⁵,

⁵ Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) Ail Argraffiad

para 7.3.3) yn cadarnhau na fydd CCA yn cario fawr o bwysau wrth wneud penderfyniadau oni bai iddynt gael eu creu yn unol â Chynllun Cynnwys Cymunedau (CCC).

7.3 Ceir y Cynllun Cynnwys Rhanddeiliaid a Chymunedau ar gyfer paratoi CCA yn Atodiad 1.

8. CCA eraill

8.1 Yn ychwanegol at y rhaglen CCA a bennir drwy'r broses o archwilio'r CDLI (Tabl 1), efallai y bydd yr angen am CCA eraill yn codi wrth roi'r CDLI ar waith. Bydd monitro'r CDLI yn flynyddol hefyd yn chwarae rôl wrth adnabod unrhyw anghenion am CCA newydd i ategu polisiau'r Cynllun.

8.2 Gall fod angen CCA newydd hefyd mewn cysylltiad â phwnc penodol yr ymdrinnir ag ef gan y CDLI, neu ag ardal a/neu safle penodol. Yn benodol, o fewn y CDLI, mae'r Cyngor wedi adnabod rhai safleoedd dyranedig lle mae'n debygol y bydd gofyn briffiau datblygu. Efallai y bydd cymunedau hefyd am ystyried Cynlluniau Bro.

8.3 **Briffiau Datblygu:** Dogfennau arweiniol safle-benodol yw'r rhain y gellir eu dwyn yn eu blaenau a'u mabwysiadu fel CCA. Mae Atodiad 1 y CDLI yn nodi pa safleoedd dyranedig yn y Cynllun sy'n debygol o ofyn briff datblygu, sy'n briodol mewn rhai achosion o ddatblygu ar raddfa fawr, neu le ceir cyfyngiadau ar y safle sy'n fwy sensitif neu gymhleth eu natur, neu le mae materion eraill wedi'u nodi sy'n gofyn mynd i'r afael â nhw yn gynnar yn y broses gynllunio. Ar ben hynny, gall rhai hap-safleoedd, h.y. safleoedd datblygu sydd heb eu hadnabod (dyrannu) eisoes yn y Cynllun, gael eu cynorthwyo gan ddull meithrin consensws CCA y briff datblygu.

8.3.1 Nid yw briffiau datblygu bob amser yn gorfod cael eu mabwysiadu fel CCA ond byddant yn cario mwy o bwysau (h.y. darparu mwy o sicrwydd) wrth wneud penderfyniadau, os ydynt yn dilyn y llwybr hwn. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall trafodaethau cynllunio cyn ymgeisio, lle yr ymgwymerir â nhw, fod yn sail ddefnyddiol i'r math yma o CCA a bydd yn cydweithio â rhanddeiliaid perthnasol ar gyfnewid gwybodaeth am safleoedd lle mae ar gael.

8.4 **Cynlluniau Bro:** Mae Llywodraeth Cymru'n mynd â'r dull Cynllun Bro o gynllunio cymunedol rhagddo ar draws Cymru. Gall Cynlluniau Bro gael eu mabwysiadu fel CCA ar yr amod eu bod yn ffitio i strwythur polisi cyffredinol y CDLI ac wedi bod yn ddarostyngedig i ymgynghori, diwygio a chael eu cymeradwyo. Sail leol sydd i Gynlluniau Bro a byddant yn dibynnu'n drwm ar ddiddordeb a chyfranogiad Cynghorau Tref a Chymuned.

8.4.1 Mae Llywodraeth Cymru'n rhagweld y gall paratoi Cynllun Bro gydredeg ag adolygiadau o'r CDLI a bod yn sail i, a chysylltu â, mecanweithiau ariannol mewn cynllunio megis rhwymedigaethau cynllunio a'r Ardoll Seilwaith Cymunedol os yw'n berthnasol.

8.4.2 Am fwy o wybodaeth am Gynlluniau Bro, dylech gyfeirio at wefan Cymorth Cynllunio Cymru ar: <http://www.planningaidwales.org.uk/?lang=cy> Mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi cynnal amryw o weithdai a digwyddiadau rhwydweithio i helpu i hybu Cynlluniau Bro. I gael hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf, chwiliwch am 'cynlluniau bro' ar eu gwefan. Mae'r wefan yn cynnwys nodiadau siaradwyr a chyflwyniadau (e.e. <http://www.planningaidwales.org.uk/place-plans-from-concept-to-reality/>)

Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn cynnig pecyn cymorth ar gyfer Cynlluniau Bro: www.shapemytown.org

8.5 Noder, at ei gilydd, y disgwylir i randdeiliaid lleol heblaw am Gyngor Sir Powys gymryd cyfrifoldeb am greu Briffiau Datblygu a/neu Gynlluniau Bro. Er enghraifft, gallant gael eu paratoi gan Cynghorau Tref a Chymuned, datblygwyr, tiffeddianwyr neu grŵp(iau) cymunedol lleol arall/eraill. **Bydd rhaid cynnwys y Cyngor Sir fel rhanddeiliad o'r cychwyn cyntaf a dylai pob**

dogfen o'r fath gael ei pharatoi'n unol ag egwyddorion y Protocol CCA er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â pholisïau'r CDLI ac yn ddarostyngedig i'r craffu cyhoeddus priodol, fel y byddant yn cario'r pwysau priodol mewn penderfyniadau cynllunio yn y dyfodol (gweler Adran 5 uchod). Ar y llaw arall, efallai y bydd Cyngor Sir Powys mewn sefyllfa i baratoi'r dogfennau CCA hyn ar ran grŵp lleol neu Gyngor Tref a Chymuned a gellir gofyn iddynt am ddyfynbris am eu gwasanaethau yn y cyswllt hwn.

9. Asesiadau

9.1 **Asesu Effeithiau Corfforaethol Sir Powys:** Drwy gydol y broses o baratoi CCA, bydd y Cyngor yn dilyn ei weithdrefnau corfforaethol ar gyfer asesu effeithiau. Defnyddir pecyn cymorth y Cyngor ar gyfer Asesu Effeithiau (neu unrhyw beth sy'n ei ddisodli) ac mae hwn yn ymgorffori'r Iaith Gymraeg, Cydraddoldebau, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, Cyfathrebu ac Ymgysylltu, Diogelu, Rhianta Corfforaethol, Cydlyniant Cymunedol a Rheoli Risg.

9.2 Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol/Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd – Asesiadau Statudol: Gan fod CCA yn ychwanegu manylion at bolisïau'r CDLI sydd eisoes wedi bod yn ddarostyngedig i asesu statudol (Arfarniad Cynaliadwyedd, Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd), ni ddylai fod angen gwneud yr asesiadau hyn mewn cysylltiad â'r CCA a nodwyd yn ystod y broses o archwilio'r CDLI. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn asesu'r sefyllfa hon ar sail unigol.

9.3 Gall CCA ardal- neu safle-benodol megis Briffiau Datblygu a Chynlluniau Bro fod yn ddarostyngedig i asesiadau statudol. Lle bo'n berthnasol, bydd y Cyngor yn egluro mewn CCA unigol, sut mae gwahanol asesiadau wedi'u hystyried a'r dull a ddefnyddiwyd.

10. Ystyriaethau o ran y Gymraeg

10.1 Dylid cyhoeddi pob dogfennaeth gyhoeddus yn ddwyieithog yn unol â Safonau'r Iaith Gymraeg y mae'r Cyngor yn eu dilyn. Lle mae cynnwys CCA yn ymwneud â'r iaith Gymraeg ei hun, efallai y bydd angen i ddogfennau drafft cynharach (Camau 1-3) gael eu cyfieithu o gychwyn cyntaf y broses baratoi i sicrhau bod yr holl randdeiliaid gan gynnwys rhanddeiliaid Cymraeg yn derbyn y ddogfennaeth briodol. Bydd y broses asesu effeithiau (adran 9.1) yn adnabod anghenion o ran yr iaith Gymraeg mewn cysylltiad â phob CCA.


11. Monitro ac Adolygu CCA

11.1 Bydd gweithredu a chyflwyno CCA yn cael eu monitro fel rhan o broses monitro blynyddol y CDLI a fydd yn cynnwys monitro polisïau neu gynigion sy'n gysylltiedig â gwahanol feysydd. Gwerthusir effeithiolrwydd CCA ochr yn ochr â'r polisïau y maent yn eu hategu fel rhan o'r broses hon.

11.2 Cedwir CCA unigol dan sylw yng ngoleuni unrhyw wybodaeth berthnasol ac efallai y bydd yn rhaid eu diweddarau i adlewyrchu newidiadau mewn amgylchiadau, polisi neu ganllawiau, neu o ganlyniad i faterion sy'n codi o roi'r CCA ar waith. Lle ystyrir bod angen diweddarau, bydd y newidiadau'n ddarostyngedig i ymgynghori, adolygu a chael eu cymeradwyo fel bo'n briodol.

12. Camau Paratoi CCA:

12.1 Bydd Cyngor Sir Powys yn mabwysiadu proses chwe cham ar gyfer paratoi CCA fel a amlinellir yn y diagram llif isod.



12.2 Mae Tabl 2 yn egluro pob cam o'r broses baratoi yn fanylach gan gynnwys yr amserlennu sydd ei angen i'r Cyngor gyflawni'r rhaglen mabwysiadu CCA a nodir yn Nhabl 1.

Tabl 2. Y Broses Paratoi CCA – Cam wrth Gam

Cam CCA a Phwrpas		Pwy sy'n gyfrifol a/neu'n cyfrannu?	Cyfraniad Aelodau'r Cyngor	Amserlenni dangosol
Cam 1: Adolygu ac Ymarferiad Cwmpasu	<p>Bydd swyddogion yn adolygu deddfwriaeth, polisi a chanllawiau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sy'n berthnasol i'r pwnc fel CCA y gorffennol, CCA wedi'u cyhoeddi gan Awdurdodau Lleol eraill a gwybodaeth arall sy'n gysylltiedig â chynllunio cyfredol a'r pwnc a fydd yn ffurfio cefndir a chyd-destun y CCA.</p> <p>Bydd yr adolygu a'r Ymarferiad Cwmpasu'n nodi'r materion a phroblemau y bwriedir i'r CCA fynd i'r afael â nhw. Sefydlir Grŵp Cyfeirio gweler yr Eirfa) er mwyn gwneud sylwadau ar yr ymarferiad cwmpasu gan gynnwys adnabod/rhestr o Randdeiliaid Pwnc proffesiynol arbenigol ac i gyfrannu at gynnwys y CCA Drafft Dros Dro a chytuno arnynt.</p>	<p>Swyddogion Polisi Cynllunio</p> <p>Grŵp Cyfeirio</p>	Ddim yn berthnasol	<p>Y CDLI yn cael ei fabwysiadu. Paratoi CCA yn dechrau yn unol â Rhaglen y CDLI.</p> <p>Bydd swyddogion yn anelu at gyhoeddi'r CCA Drafft Dros Dro o fewn 6 wythnos i ddechrau'r CCA a chaniatáu cyfnod pellach i geisio adborth arbenigol gan Randdeiliaid Pwnc ac adolygu/diwygio.</p>
Cam 2: CCA Drafft Dros Dro	Bydd y Cyngor yn ceisio adborth wrth baratoi'r CCA Drafft Dros Dro gydag amrywiaeth wedi'i thargedu o randdeiliaid proffesiynol arbenigol a elwir yn Rhanddeiliaid Pwnc (gweler yr Eirfa).	<p>Swyddogion Polisi Cynllunio</p> <p>Grŵp Cyfeirio</p> <p>Rhanddeiliaid Pwnc</p>		
Cam 3: CCA Drafft Ymgynghori	Mewn trafodaeth â'r Grŵp Cyfeirio , bydd Swyddogion yn diweddarau'r Drafft Dros Dro i greu CCA Drafft Ymgynghori.	<p>Swyddogion Polisi Cynllunio</p> <p>Grŵp Cyfeirio</p>	Gweithgor y CDLI / Deiliaid Portffolio(s) i gymeradwyo'r Drafft Ymgynghori ar gyfer ymgynghori cyhoeddus	<p>Bydd swyddogion yn anelu at gyhoeddi'r CCA Drafft Ymgynghori o fewn 10 wythnos i ddechrau'r CCA.</p> <p>Dylai ymgynghori cyhoeddus ddechrau 12 wythnos ar ôl cychwyn ar y CCA.</p>

Parhad Cam CCA a Phwrpas		Pwy sy'n gyfrifol a/neu'n cyfrannu?	Cyfraniad Aelodau'r Cyngor	Amserlenni dangosol
Cam 4: Ymgynghori Cyhoeddus	Bydd y Cyngor yn cyhoeddi'r CCA Drafft Ymgynghori ar gyfer ymgynghori'n ehangach â rhanddeiliaid, y cyhoedd ac asiantaethau. Bydd yr ymgynghori'n unol â Chynllun Cynnwys Rhanddeiliaid a Chymunedau'r CCA (gweler Atodiad 1).	Rhanddeiliaid Pwnc Rhanddeiliaid Eraill Y Cyhoedd	Rhoddir gwybod i Gynghorwyr drwy Fwletin Gwybodaeth yr Aelodau Hysbysir y Pwyllgor Cynllunio	Bydd cyfnod 6 wythnos o Ymgynghori Cyhoeddus.
Cam 5: CCA Terfynol	Bydd swyddogion yn ystyried y sylwadau a dderbynnir drwy'r cam ymgynghori cyhoeddus ac yn adolygu/diwygio'r CCA Drafft Ymgynghori mewn trafodaeth â'r Grŵp Cyfeirio . Cyhoeddir CCA Terfynol a fydd yn cynnwys Datganiad Ymgynghori i grynhoi manylion y cam ymgynghori, gan egluro'r sylwadau a dderbyniwyd ac yn manylu ar unrhyw newidiadau a wnaethpwyd o ganlyniad i'r broses ymgynghori.	Swyddogion Polisi Cynllunio Grŵp Cyfeirio	Gweithgor y CDLI Cabinet i'w cymeradwyo	Bydd swyddogion yn anelu at gyhoeddi CCA Terfynol o fewn 3 wythnos o'r Ymgynghori Cyhoeddus yn cau ac yn adrodd wrth Weithgor y CDLI.
Cam 6: Mabwysiadu'r CCA, eu Cyhoeddi a'u Gweithredu	Unwaith iddynt gael eu mabwysiadu, bydd y CCA yn cael eu defnyddio at ddibenion Rheoli Datblygu. Bydd y Cyngor yn cyhoeddi'r CCA mabwysiedig gan sicrhau eu bod ar gael a'u hyrwyddo'n unol â Chynllun Cynnwys Rhanddeiliaid a Chymunedau'r CCA (gweler Atodiad 1)	Swyddogion Polisi Cynllunio	Rhoddir gwybod i Gynghorwyr drwy Fwletin Gwybodaeth yr Aelodau Hysbysir y Pwyllgor Cynllunio	Cynllunnir mabwysiadu a chyhoeddi'r CCA yn unol ag amserlenni targed Rhaglen y CDLI.

Atodiad 1

Cynllun Cynnwys Rhanddeiliaid a Chymunedau'r CCA (CCRhCh)

1. Cyflwyniad

Mae'r CCRhCh hwn ar gyfer paratoi Canllawiau Cynllunio Ategol (CCA) wedi'i ddiweddarau o CCRhCh Cytundeb Cyflenwi'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) ac wedi'i deilwra at broses y CCA. Mae hyn yn golygu bod y dull ymgysylltu cymunedol yn cael ei ddatblygu i adlewyrchu a bod yn gymesur â manylion a chynnwys gwaith sy'n ymwneud â CCA ac yn addas ar gyfer y partïon y disgwylir iddynt gymryd rhan, wrth gyflawni amserlenni'r paratoi.

2. Nodau'r CCRhCh

I sicrhau bod y broses yn glir, yn dryloyw ac yn gyson, bydd y Cyngor yn paratoi'r holl ganllawiau cynllunio atodol yn unol â'r CCRhCh hwn sy'n anelu at:

- i) Eich hysbysu pryd a sut y gallwch fynd ati i gyfrannu at baratoi'r CCA.
- ii) Sicrhau'ch bod yn ymwybodol o'r dulliau y bydd y Cyngor yn eu defnyddio i gyfathrebu a'r cyfnodau pryd y cewch wneud sylwadau.
- iii) Rhoi gwybod i chi sut y bydd y Cyngor yn rhoi adborth ar sut mae'ch barn wedi cael ei hystyried.

Dylai Briffiau Datblygu a Chynlluniau Bro a all fod dan arweiniad sefydliadau heblaw am y Cyngor gael eu llunio ar sail chwe cham paratoi'r CCA (Adran 12 y Protocol) a dilyn yr egwyddorion a nodir yn y Protocol a CCRhCh yma i gael eu mabwysiadu.

3. Camau Paratoi a Mabwysiadu'r CCA

Dangosir chwe cham paratoi a mabwysiadu'r CCA yn y Protocol hwn. Bydd ymwneud â pharatoi'r CCA dan arweiniad Swyddogion Polisi Cynllunio ac yn cynnwys dau brif grŵp ymgynghori, sef:

1. Rhanddeiliaid Pwnc
2. Rhanddeiliaid eraill a'r Cyhoedd

4. Rhanddeiliaid Pwnc

Bydd y Cyngor yn targedu cyfranogiad yn ystod y camau paratoi cychwynnol. Bydd y Cyngor yn adnabod arbenigwyr proffesiynol mewn pwnc i fod yn Rhanddeiliaid Pwnc (gweler yr Eirfa) gan ddefnyddio rhwydweithiau a chysylltiadau sydd eisoes ar gadw yng nghronfa ddata CDLI y Cyngor. Bydd y partïon i'w cynnwys fel Rhanddeiliaid Pwnc yn amrywio'n ôl pwnc/cynnwys y CCA ac fe'u cedwir dan sylw.

O'r grŵp yma, bydd y Cyngor ar y cychwyn yn ffurfio Grŵp Cyfeirio (gweler yr Eirfa) a fydd yn cyfrannu drwy gydol y broses 6 mis i siapia a bod yn sail gwybodaeth i'r CCA. Er yn cael ei ffurfio'n gyffredinol o swyddogion mewnol (Cyngor Sir Powys) yn unig, ar adegau gall y Grŵp Cyfeirio gynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau partner eraill a/neu gyrff arbenigol allanol, gan gynnwys ymgynghoreion cynllunio statudol perthnasol a dynnir o'r grŵp Rhanddeiliaid Pwnc arbenigol ehangach.

Bydd dethol ac aelodaeth y Grŵp Rhanddeiliaid Pwnc a'r Grŵp Cyfeirio yn ôl disgrisiwn y Cyngor.

Bydd y Grŵp Cyfeirio'n goruchwyllo ac yn cynorthwyo wrth baratoi'r Drafft Dros Dro (Cam 2) a fydd yn cael ei gylchredeg i Rhanddeiliaid Pwnc arbenigol am eu hadborth. At ei gilydd, drwy e-byst y bydd y Cyngor yn cynnwys y Grŵp Cyfeirio a Rhanddeiliaid Pwnc.

5. Cynnwys Rhanddeiliaid Eraill a'r Cyhoedd

Y prif gam ymgynghori ar gyfer rhanddeiliaid eraill, y cyhoedd ac asiantaethau yw Cam 4 pan fydd y Cyngor, dri mis ar ôl dechrau'r paratoi, yn ymgymryd ag ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â'r CCA Drafft Ymgynghori.

5.1 Yn ystod y Cam Ymgynghori Cyhoeddus (Cam Paratoi 4), bydd y Cyngor yn:

- Hysbysu pob enw yng nghronfa ddata'r CDLI drwy e-bost (oni bai'ch bod wedi cysylltu â ni i ofyn am ohebiaeth ysgrifenedig) a chyhoeddi ar dudalennau'r CDLI ar wefan y Cyngor fod CCA ar gael ar gyfer ymgynghori cyhoeddus.
- Rhoi cyhoeddusrwydd i'r ymgynghori drwy ddatganiadau i'r wasg a'r cyfryngau cymdeithasol fel bo'n briodol.
- Rhoi hysbysiad ymlaen llaw i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned ym Mhowys ynglŷn ag ymgynghoriad(au) ynghylch y CCA gan eu galluogi i roi cyhoeddusrwydd i broses y CCA yn eu cymunedau.
- Trefnu bod yr holl ddogfennau perthnasol ar gael ar-lein ar we-dudalennau CDLI y Cyngor ac ar ffurf copi caled yn y lleoliadau canlynol:

i) Prif **Swyddfeydd y Cyngor** (Canolfannau Adneuo): **Neuadd y Sir** a'r **Gwalia**,
Llandrindod,
Neuadd Brycheiniog, Aberhonddu, a
Neuadd Maldwyn, Y Trallwng;

ac yn

ii) Holl **Lyfrgelloedd Cyhoeddus** Powys

- Darparu taflen Cwestiynau Cyffredin i gyd-fynd â phob CCA drafft ymgynghori i gynorthwyo wrth ddeall proses y CCA, diben dogfen y CCA a'r trefniadau ymgynghori.
- Darparu **cyfnod ymgynghori 6 wythnos** i sylwadau gael eu gwneud.
- Os cynhelir cyfarfod, digwyddiad neu weithdy cymunedol, bydd y Cyngor yn cadw rhestr bresenoldeb a chyhoeddi cofnodion o'r digwyddiad ymgysylltu, canlyniadau'r cyfranogi ac unrhyw gamau gweithredu sy'n codi. Bydd y cofnodion ar gael, cyn gynted ag sy'n ymarferol, yn electronig ar we-dudalennau CDLI y Cyngor.

5.2 Sut gallwch wneud sylwadau:

- Mae'r Cyngor yn croesawu pob adborth. Dylid gwneud sylwadau ymgynghori'n ysgrifenedig a'u cyflwyno ar ffurflen safonol neu drwy lythyr/e-bost ar wahân at Dîm y CDLI.
- Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a bydd yn ymateb i unrhyw ohebiaeth yn yr iaith honno. Ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.
- Efallai y bydd y Cyngor yn gofyn am adborth manylach/mwy penodol drwy ddyfeisio set o gwestiynau ymgynghori a all fod yn fuddiol iawn wrth ddeall barn pobl.
- Dylid cyflwyno sylwadau ymgynghori cyn dyddiad cau'r ymgynghoriad.

6. Ymateb i Adborth o'r Ymgynghori a Mabwysiadu'r CCA terfynol (Camau Paratoi 5 a 6)

Cyhoeddir ymatebion y Cyngor i'r sylwadau a godir yn y Cam Ymgynghori Cyhoeddus mewn Datganiad Ymgynghori. Bydd y Datganiad yn egluro sut mae'r CCA wedi cael eu hadolygu/diwygio i roi ystyriaeth i'r sylwadau sydd wedi'u gwneud. Unwaith bod y CCA Terfynol wedi'u cymeradwyo gan Gyngor Sir Powys drwy weithdrefnau ffurfiol, fe'u hystyrir fel canllawiau wedi'u mabwysiadu a'u rhoi ar waith, a bydd y Cyngor yn hysbysu rhanddeiliaid a'r cyhoedd fel a ganlyn:

- Rhoi gwybod drwy e-bost i'r holl enwau yng nghronfa bost y CDLI am unrhyw CCA cymeradwy cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol yn dilyn cymeradwyaeth y Cyngor.
- Cyhoeddi'r CCA ar-lein ar we-dudalennau CDLI y Cyngor cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

Protocol CCA Powys Mehefin 2018

- Rhoi copi caled o'r CCA cymeradwy ym **mhedair prif swyddfa'r Cyngor** fel a restrir yn adran 5.1 uchod ac yn holl lyfrgelloedd Powys sydd â chopi o'r cynllun datblygu mabwysiedig.
- Cyhoeddi'r ddogfen gymeradwy drwy ddatganiadau i'r wasg a'r cyfryngau cymdeithasol fel bo'n briodol.

Nodiadau ar y CCRhCh:

- ❖ Gall unrhyw un sy'n darllen y ddogfen hon ofyn am gael ei ychwanegu at gronfa ddata bost y CDLI* i dderbyn diweddariadau a gwybodaeth gyffredinol.
- ❖ Os yw'r Cyngor yn credu y byddai **cyfarfod, digwyddiad neu weithdy cymunedol** o fudd wrth baratoi'r CCA, gellir trefnu cyfranogiad o'r fath yn ystod y cam ymgynghori cyhoeddus. Bydd y Cyngor yn cyhoeddi manylion unrhyw ddogwyddiad o'r fath ar wefan y Cyngor (tudalennau'r CDLI). Lle bo'n bosibl bydd y digwyddiad yn cael ei gyhoeddi drwy hysbysiad ymlaen llaw yn y lleoliad (e.e. hysbysfwrdd neuadd bentref).

❖ Manylion Cyswilt y Polisi Cynllunio:

E-bost: ldp@powys.gov.uk
Post: Polisi Cynllunio, Cyngor Sir Powys, Y Gwalia, Ffordd Ithon,
Llandrindod, Powys, LD1 6AA
Ffôn: 01597 826000

- ❖ Bydd agenda, adroddiadau a chofnodion Gweithgor y CDLI a Chabinet y Cyngor sydd ar gael ar dudalennau pwyllgor y Cyngor yn cofnodi hynt y CCA drwy'r broses gymeradwyo ac felly yn gallu cynnig ffynhonnell gyfeirio ddefnyddiol.

***PWYSIG:** Gwnewch yn siŵr fod eich manylion cyswilt e-bost diweddaraf gan y Cyngor. Drwy ddulliau cyfathrebu electronig y bydd y Cyngor yn eich cynnwys. Os byddwch chi angen cyfathrebu mewn fformat arall cysylltwch â Thîm y CDLI.

Atodiad 2

GEIRFA	
Briff Datblygu	Datganiad sy'n amlinellu'r cynigion a gofynion cyffredinol ar gyfer datblygu safle penodol gan gynnwys cynllunio manwl. (CSP, 2018 ⁶)
Canllawiau Cynllunio Ategol (CCA)	Gwybodaeth ategol ynglŷn â'r polisïau mewn CDLI. Nid yw CCA yn ffurfio rhan o'r cynllun datblygu ac nid ydynt yn ddarostyngedig i archwilio annibynnol ond rhaid iddynt fod yn gyson â'r Cynllun ac â pholisi cynllunio cenedlaethol. Gall CCA fod (diffiniadau o TAN 12: Dylunio, LIC, Mawrth, 2016) yn: <ul style="list-style-type: none"> • Seiliedig ar Bwnc: Lle mae angen arweiniad mewn perthynas â materion neu ddefnydd penodol. • Penodol i ardal: Yn berthnasol i arwain datblygu mewn ardaloedd allweddol megis canol trefi, ardaloedd cadwraeth neu gymdogaeth arbennig neu gwr trefol. • Safle-benodol: Arweiniad ar y ffordd y dylid datblygu safle penodol neu i roi gwybodaeth am nodweddion safle penodol yn unol â pholisi lleol/cenedlaethol.
Cyfranogi	Pobl yn cael eu cynnwys mewn ffordd weithredol gan wneuthurwyr polisi a chynllunwyr gwasanaethau o gyfnod cynnar o gynllunio ac adolygu polisïau a gwasanaethau. (Cyfranogaeth Cymru, 2011 ⁷)
Cynllun Bro	Mae Cynlluniau Bro'n cynnig cyfle i drefi neu ardaloedd unigol i gael cynllun cynhwysfawr yn ei le o fewn fframwaith y Cynllun Datblygu Lleol. Maent yn cael eu ffafrio gan Lywodraeth Cymru (LIC, Rhag 2015 ⁸) ond nid oes fformat penodedig ar gyfer Cynllun Bro. Mae cyhoeddi Cynlluniau Bro'n hybu cynnwys cymunedau'n fwy mewn cynllunio, gan eu gadael i siapio eu broydd eu hunain. Nid ydynt yn gyfyngedig i drefi a gallent gynnwys, er enghraifft, bentref, clwstwr o bentrefi/bro, cymdogaeth, canol tref neu ardal adfywio. Mae LIC wedi datblygu cyfres o brosiectau peilot gan anelu at helpu Cyngorau Tref a Chymuned i ddatblygu Cynlluniau Bro.
Cynllun Cynnwys Cymunedau	Yn nodi'r cynllun prosiect y mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ei ddefnyddio at gynnwys cymunedau lleol, busnesau ac eraill wrth baratoi'r CDLI. Cytunir ar y Cynllun Cynnwys Cymunedau gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r Cytundeb Cyflenwi (CSP, 2015 ⁹). Mae Cyngor Sir Powys wedi llunio Cynllun Cynnwys Rhanddeiliaid a Chymunedau wedi'i ddiweddarau ac ar wahân at ddibenion cyfranogiad o CCA.
Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)	Y cynllun datblygu statudol gofynnol i bob ardal Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru o dan Ran 6 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. (CSP, 2018 ¹⁰)
Cytundeb Cyflenwi	Dogfen sy'n cynnwys amserlen yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer paratoi'r CDLI ynghyd â'i Gynllun Cynnwys Cymunedau a gyflwynir i Lywodraeth Cymru iddi gytuno arno.
Grŵp Cyfeirio	Bydd y Cyngor, ar ddechrau pob proses CCA, yn adnabod Grŵp Cyfeirio. Bydd y grŵp hwn fel arfer yn cynnwys rhanddeiliaid mewnol (Cyngor Sir Powys) y mae eu rolau a chyfrifoldebau'n gysylltiedig â'r maes pwnc. Rôl y Grŵp Cyfeirio fydd helpu gyda chwmpasu'r CCA ar y cychwyn gan gynnwys dilysu'r rhestr o Rhanddeiliaid Pwnc. Er bydd ei rôl yn arbennig o bwysig ar ddechrau proses y CCA, mae'n debygol y bydd y grŵp yn dal i weithredu fel bwrdd seinio, yn enwedig ar gyfer unrhyw

⁶ Cynllun Datblygu Lleol Powys (2011-2026)

⁷ Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru

⁸ Cynllun Gweithredu Cynllunio Cadarnhaol

⁹ Cytundeb Cyflenwi Cynllun Datblygu Lleol Powys (2011-2026)

¹⁰ Cynllun Datblygu Lleol Powys (2011-2026)

	sylwadau neu ddewisiadau a ddygir gerbron drwy gydol proses y CCA. Mae aelodau o'r Grŵp Cyfeirio hefyd yn cyfranogi fel Rhanddeiliaid Pwnc.
Gweithgor y CDLI	<p>Gweithgor Swyddogion-Aelodau mewnol sy'n cyfarfod i oruchwylio ac ystyried yn fanwl baratoi'r CDLI ac i wneud argymhellion i Gabinet y Cyngor. Mae aelodau o'r Gweithgor hefyd yn rhoi adborth i aelodau eraill o'r Cyngor.</p> <p>Sefydlwyd y Gweithgor yn 2007 ac mae wedi cymryd rhan ym mhob cam o baratoi'r CDLI hyd at y cam mabwysiadu a bydd yn parhau i gymryd rhan ar ôl y mabwysiadu wrth baratoi'r CCA a monitro ac adolygu'r Cynllun yn flynyddol. Mae'n cyfarfod yn ôl y gofyn.</p>
Meithrin consensws	Proses o sgwrsio cynnar â grwpiau buddiant a dargedir i ddeall safbwyntiau perthnasol a chytuno ar gamau gweithredu. (LIC, 2015 ¹¹)
Rhanddeiliaid	<p>"Unrhyw un a all effeithio ar, neu yr effeithir arno, gan sefydliad, strategaeth neu brosiect". "Gall cyfranogi fod drwy gyrff cynrychioladol". Ar gyfer cyfranogi o'r CCA mae'r Cyngor wedi adnabod dau brif grŵp:</p> <p>Rhanddeiliaid Pwnc: Y prif bartïon perthnasol yw'r rhain (mewnol ac allanol) sydd ag arbenigedd proffesiynol cysylltiedig â chynllunio a/neu brofiad o'r maes pwnc. Ochr yn ochr â swyddogion a chyrrff arbenigol, bydd y Cyngor yn ceisio cynnwys unrhyw ymgynghoreion cynllunio statudol perthnasol yn y grŵp hwn mewn cydnabyddiaeth o'u rôl statudol yn y broses ceisiadau cynllunio. Bydd y Cyngor hefyd yn cynnwys adrannau perthnasol yn Llywodraeth Cymru. Mae cyfranogi fel Rhanddeiliad Pwnc yn ôl disgrisiwn y Cyngor. Ar gyfer Briffiau Datblygu, Cynlluniau Bro neu CCA safle-benodol eraill, bydd Rhanddeiliaid Pwnc yn cynnwys y Cyngor, y Cyngor(Cynghorau) Tref a Chymuned perthnasol a'r partïon hynny (lle'n hysbys) sydd â diddordeb cyfreithiol mewn, neu sy'n rheoli, y tir (e.e. datblygwr, tiffeddiannwr, tenant, asiant tir/cynllunydd penodedig).</p> <p>Rhanddeiliaid Eraill: Ar gyfer unrhyw un arall sydd am gael ei gadw'n hysbys, mae eisoes gan y Cyngor gronfa ddata o bartïon sydd â diddordeb yn sgil y broses o baratoi'r CDLI. Dylai partïon newydd sydd am i'r Cyngor ymgynghori â nhw ynglŷn â'r CCA ofyn am gael eu hychwanegu at gronfa ddata bostio'r CDLI i sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n hysbys ac yn derbyn diweddariadau. Ceir y manylion cyswllt ar dudalen 12.</p>
Ymgynghori	Proses ffurfiol lle y gwahoddir sylwadau ar bwnc penodol neu set o bynciau, neu ddogfen ddrafft. (LIC, 2015 ¹²)
Ymgynghoreion Cynllunio Statudol	Sefydliadau a chyrrff yw'r rhain, a ddiffinnir gan statud, y mae'n rhaid ymgynghori â nhw ynglŷn â cheisiadau cynllunio perthnasol. Ymhlith y prif sefydliadau (o ran effaith a nifer yr ymgynghoriadau) mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac adrannau penodol o Lywodraeth Cymru. Mae cyrrff eraill yn cynnwys awdurdodau priffyrdd lleol a sefydliadau sydd â diddordebau mwy penodol, megis yr Awdurdod Glo. Yn gyffredinol, diffinnir ymgynghoreion statudol yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995 (fel y'i diwygiwyd). (Llywodraeth Cymru, 2011 ¹³)
Ymgysylltu	Proses weithredol a chyfranogol lle y gall pobl siapio a dylanwadu ar bolisi a gwasanaethau ac sy'n cynnwys amrywiaeth eang o wahanol ddulliau a thechnegau. (Cyfranogaeth Cymru, 2011 ¹⁴)

¹¹ Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) Ail Argraffiad

¹² Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) Ail Argraffiad

¹³ Adroddiad Gwybodaeth: Rhestr o Ymgynghoreion Statudol ac Anstatudol yn y Broses Ceisiadau Cynllunio

¹⁴ Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru